AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

Ymddygiadau teithio: prif ganlyniadau, 2025/26

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r deuddeg mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025/26 (ATCC). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 6,100 o ymatebion a 18,000 o deithiau a gofnodwyd gan bobl ledled Cymru. Ystadegau swyddogol o dan ddatblygiad yw'r data hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ymddygiadau teithio; hynny yw, patrymau teithio a dewisiadau go iawn ymatebwyr. Cofnodwyd y wybodaeth hon mewn dyddiadur teithio ôl-weithredol deuddydd lle gofynnwyd i ymatebwyr sut, pam, pryd a ble y gwnaethant deithio.

Mae'r ATCC yma'n arolwg newydd, a'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf i Gymru ers 2012. Dylid cymryd gofal wrth ystyried y canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Gallai gwahaniaethau fod oherwydd gwahanol ddiffiniadau a ddefnyddir, methodolegau arolwg gwahanol neu wahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf yr arolwg, gyda data wedi'i gasglu o sampl o sypiau o fis Mawrth 2025 i Chwefror 2026. Gellir dod o hyd i wybodaeth am ansawdd yn ein hadroddiad ansawdd.

Defnyddiwyd sawl term trafnidiaeth benodol yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi cynhyrchu dogfen ddiffiniadau i gynorthwyo dealltwriaeth.

Prif ganfyddiadau

- Gwnaed 74.3% o deithiau mewn car, naill ai fel gyrrwr (59.6%) neu deithiwr (14.7%).
- Cwblhawyd 17.5% o deithiau trwy gerdded neu olwynio, tra yr oedd 1.4% ar feic (felly cyfanswm o 18.9% i ddulliau teithio llesol).
- Roedd 3.7% o'r teithiau ar fws a 1.9% ar y trên (felly 5.6% ar drafnidiaeth gyhoeddus).
- Roedd 10.5% o'r holl deithiau yn amlfodd, lle defnyddiwyd dau neu fwy o ddulliau teithio.
- Defnyddiwyd teithiau sy'n cyfuno bws neu reilffordd (mewn unrhyw drefn) mewn 1.7% o deithiau amlfodd.
- Siopa (23.1%), cymudo gwaith (19.3%), a chymdeithasu neu adloniant (17.7%) oedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros deithio.
- Ar gyfartaledd, teithiodd unigolion 9,670.6km y flwyddyn, neu 15.5km y daith.

Nodyn ar y data

Amcangyfrifon yw'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac yn y tablau ategol, sy'n seiliedig ar ymddygiad a barn ymatebwyr. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth oedolion Cymru.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn. Mae'r lefel hon o ansicrwydd yn fwy ar gyfer grwpiau llai a dulliau teithio llai cyffredin. Er enghraifft, mae amcangyfrifon ar gyfer de-ddwyrain Cymru yn seiliedig ar 2,825 o ymatebwyr, o'i gymharu â 665 o ganolbarth Cymru, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer canolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn dal i ddarparu amcangyfrifon rhesymol ar gyfer y grwpiau llai hyn o'r boblogaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am gywirdeb a manylder yr amcangyfrifon hyn ar gael yn adran Cywirdeb yr Adroddiad Ansawdd.

Ar gyfer rhai cwestiynau, gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n hafaldod i 100%.

Cyfran y prif fodd

Mae'r prif ddull teithio yn cyfeirio at y modd a ddefnyddiwyd ar gyfer y pellter hiraf mewn taith. Cyfran y modd yw canran y teithiau fesul person y flwyddyn a gwblhawyd gan brif ddull penodol.

- Car oedd y prif ddull teithio mwyaf cyffredin, a ddefnyddiwyd mewn 74.3% o'r holl deithiau. Roedd 59.6% o'r holl deithiau fel gyrrwr car, gyda 14.7% arall fel teithiwr.
- Mae cerdded neu olwynio yn ail yn y rhestr 'prif ddull teithio' gyda chanran o 17.5%.
- Gwnaed 1.4% o deithiau ar feic, sy'n golygu bod 18.9% o'r teithiau yn ddull teithio llesol (cerdded, olwynio neu feic deugylch).
- Roedd 5.6% o deithiau yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fel y prif ddull teithio. Roedd teithiau bws (3.7%) yn fwy cyffredin na theithiau ar y trên (1.9%).
- Dulliau teithio cynaliadwy, a ddiffinnir fel teithiau gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu ddulliau teithio llesol, oedd y prif ddull teithio mewn 24.6% o'r holl deithiau.
- Defnyddiwyd tacsis (0.9%) a dulliau eraill (llai na 0.5%) yn llai aml.

Cyfran y prif fodd, yn genedlaethol

Ffigur 1: Cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl prif ddull teithio, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 1: Siart bar llorweddol sy'n dangos cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl gwahanol ddulliau teithio. Gwnaed 59.6% o deithiau fesul person y flwyddyn fel gyrrwr car. Gwnaed 17.5% o deithiau drwy gerdded ac olwynio, gyda dulliau eraill yn cael eu defnyddio'n llai aml.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, cyfran y prif ddull

Cyfran y prif ddull yn ôl rhanbarthau Cymru

Mae data rhanbarthol yn seiliedig ar y rhanbarth lle mae'r unigolyn yn byw, yn hytrach na lle digwyddodd y daith.

- Trigolion canolbarth Cymru oedd â'r gyfran isaf o deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus (2.8%) ar draws y pedwar rhanbarth.
- Pobl sy'n byw yng ngogledd Cymru wnaeth y lleiaf o deithiau cerdded ac olwynio (14.3%) ac a chofnododd y gyfran uchaf o deithiau mewn car (79.1%).
- Trigolion de-ddwyrain Cymru oedd â'r gyfran uchaf o deithiau llesol (20.6%) a thrafnidiaeth gyhoeddus (6.7%). Roedd eu cyfran o'r teithiau a wnaed gan ddulliau teithio cynaliadwy yn 27.3%, yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 24.6%.
- Trigolion yn ne-orllewin Cymru oedd â'r gyfran isaf o ddull rheilffordd ymhlith y pedwar rhanbarth, gyda dim ond 1.0% o'r teithiau wedi'u cwblhau ar drên.

Pellteroedd taith

Ar gyfer dulliau teithio nad ydynt yn rheilffyrdd, pellter y daith yw hyd y llwybr daearyddol mwyaf uniongyrchol, posibl rhwng y tarddiad a'r gyrchfan. Nid yw'n cael ei fesur fel llinell syth o'r tarddiad i'r gyrchfan.

Ar gyfer teithiau ar y rheilffordd, defnyddir y pellter byrraf rhwng dwy orsaf reilffordd. Mae'r cyfanswm pellter hefyd yn cynnwys y llwybr mwyaf uniongyrchol posibl o'r tarddiad i'r orsaf reilffordd tarddiad, ac o'r orsaf reilffordd cyrchfan i'r gyrchfan daith derfynol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut rydym wedi cyfrifo pellteroedd yn ein diffiniadau.

- Ar gyfartaledd, teithiodd pobl yng Nghymru 9,670.6km y person y flwyddyn. Mae hyn yn gyfateb i hyd taith cymedrig o 15.5km.
- Y pellter canolrifol a deithiwyd oedd 5.8km y daith. Roedd hanner yr holl deithiau yn fyrrach na'r pellter hwn a'r hanner arall yn hirach.

Cyfanswm y pellter a deithiwyd yn ôl y dull teithio

- Roedd y rhan fwyaf o'r pellter a deithiwyd mewn car, cyfanswm o 8,293.2km y person y flwyddyn. Roedd unigolion yn gyrru 6,474.1km y flwyddyn a theithio 1,818.4km arall fel teithiwr.
- Cyfanswm y teithiau rheilffordd oedd 737.1km y person y flwyddyn. Teithiodd pobl 247.4km y pen y flwyddyn ar fws, sy'n golygu cyfanswm y pellter a deithiwyd fesul person y flwyddyn ar drafnidiaeth gyhoeddus oedd 984.5km.
- Mewn cyferbyniad, roedd teithiau trwy deithio llesol yn cwmpasu 238.7km y pen y flwyddyn ar gyfartaledd (175.5km trwy gerdded ac olwynio, a 63.2km trwy feicio deugylch). Er bod ganddynt gyfran uwch o deithiau, defnyddir dulliau teithio llesol i gwmpasu pellter byrrach na thrafnidiaeth gyhoeddus oherwydd eu defnydd mewn teithiau byrrach fel arfer.

Pellter cymedrig y daith yn ôl y dull o deithio

- Teithiau a wneir trwy gerdded ac olwynio fel arfer yn cwmpasu'r pellter byrraf, gyda hyd taith cymedrig o 1.6km.
- Roedd gan deithiau seiclo hyd cymedrig o 7.2km.
- Hyd cyfartalog y daith mewn car oedd 17.9km. Roedd teithiau fel teithiwr car fel arfer yn hirach (19.8km) nag fel y gyrrwr (17.4km).
- Hyd cymedrig taith bws oedd 10.6km. Teithiau rheilffordd oedd â'r pellter cyfartalog hiraf a gwmpaswyd, gyda hyd cymedrig o 61.9km.

Pellter taith canolrifol yn ôl dull teithio

- Hyd canolrifol y teithiau cerdded ac olwynio oedd 1.0km. Ar gyfer teithiau beicio, yr hyd canolrifol oedd 3.7km.
- Roedd gan deithiau mewn car hyd canolrifol o 8.0km, yn debyg i deithiau ar fws (8.8km).

- Yr un fath ı hyd cymedrig y daith, roedd teithiau ar y rheilffordd fel arfer yn llawer hirach. Hyd canolrifol taith ar y rheilffordd oedd 33.1km.

Cyfran y teithiau a chyfanswm y pellter a deithiwyd yn ôl dull teithio

Ffigur 2: Cymharu cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn a chyfanswm y pellter a deithiwyd yn ôl y prif ddull, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar llorweddol sy'n cymharu cyfran y teithiau a chyfran o gyfanswm y pellter a deithiwyd. Defnyddiwyd car fel y prif ddull teithio mewn 74.3% o deithiau ac roedd yn cyfrif am 85.8% o gyfanswm y pellter a deithiwyd. Mewn cyferbyniad, defnyddiwyd dulliau teithio llesol ar gyfer 18.9% o'r teithiau a 2.5% o'r pellter a deithiwyd.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, pellteroedd taith

Cyfran modd yn ôl pellter a deithiwyd

- Roedd bron i hanner yr holl deithiau a wnaed (46.6%) o dan 5km. Roedd 12.1% o'r teithiau a gofnodwyd yn llai nag 1km o hyd, gyda 34.5% o'r teithiau rhwng 1km a 5km.
- Roedd 75.1% o deithiau o dan 1km yn defnyddio cerdded ac olwynio fel y prif ddull teithio, y dull mwyaf cyffredin a ddefnyddir ar gyfer teithiau byr iawn.
- Ar gyfer pob grŵp pellter uwchlaw 1km, car (naill ai fel gyrrwr neu deithiwr) oedd y dull teithio a ddefnyddiwyd fwyaf.

Teithiau amlfodd

Taith amlfodd yw lle defnyddir dau neu fwy o ddulliau teithio ar gyfer un daith. Y prif ddull yw'r dull teithio a ddefnyddir ar gyfer pellter hiraf y daith. Diffinnir dulliau eraill a ddefnyddir fel rhan o'r daith fel dulliau ychwanegol. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion am deithiau amlfodd yn ein diffiniadau.

- Roedd 10.5% o'r holl deithiau yn amlfodd (65.4 taith y pen y flwyddyn). Roedd y teithiau hyn yn fwy cyffredin gan drigolion yn ardaloedd trefol (11.5%, neu 72.0 taith y person y flwyddyn) o'i gymharu ag ardaloedd gwledig (7.9%, neu 49.3 taith y person y flwyddyn).
- Y prif ddull mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd mewn teithiau amlfodd oedd car, naill ai fel gyrrwr neu deithiwr. Defnyddiwyd hwn fel y prif ddull teithio mewn 37.6% o deithiau amlfodd. Defnyddiwyd bws fel y prif ddull mewn 34.6% o deithiau amlfodd. Defnyddiwyd rheilffordd fel y prif ddull mewn 17.8% o deithiau amlfodd.
- Y dull teithio ychwanegol a ddefnyddiwyd fwyaf oedd cerdded ac olwynio, sef 77.1% o'r holl deithiau amlfodd. Bws oedd y dull teithio ychwanegol mewn 10.9% o deithiau yn amlfodd. Defnyddiwyd car mewn 9.6% o deithiau yn amlfodd fel dull teithio ychwanegol.
- Roedd siwrneiau sy'n cyfuno dulliau trafnidiaeth gyhoeddus yn anghyffredin. Roedd 1.7% o deithiau amlfodd yn defnyddio bws a rheilffordd, gan gyfrif am 1.1 taith y pen y flwyddyn.

Teithiau i, ac o arosfannau bysiau

Ar gyfartaledd, gwnaed 23.3 o deithiau fesul person y flwyddyn ar fws fel y prif ddull teithio (3.7% o'r holl deithiau).

- Cerdded ac olwynio oedd y dull mwyaf cyffredin o deithio i ac o arosfannau bysiau . Gwnaed 93.1% o deithiau i arosfannau bysiau drwy gerdded ac olwynio, gyda 91.3% o deithiau o arosfannau bysiau i'r gyrchfan yn cael eu gwneud gan y dull hwn.
- Roedd 1.2% o deithiau i arosfannau bysiau mewn car. Roedd 1.4% o deithiau o arosfannau bysiau mewn car ac roedd 1.0% mewn tacsi.
- Roedd teithiau i ac o arosfannau bysiau fel arfer yn fyr. Roedd 58.2% o deithiau i arosfannau bysiau o dan 1km, gyda 38.5% arall o deithiau i arosfannau bysiau rhwng 1km a 5km o hyd.
- Roedd teithiau o arosfannau bysiau yn hyd tebyg, gyda 61.2% yn llai nag 1km a 35.8% rhwng 1km a 5km o hyd.

Teithiau i, ac o orsaf reilffordd

Ar gyfartaledd, gwnaed 11.9 o deithiau fesul person y flwyddyn ar y trên fel y prif ddull teithio (1.9% o'r holl deithiau).

- Cerdded ac olwynio oedd y dull teithio a ddefnyddiwyd amlaf i, ac o orsafoedd rheilffordd. Gwnaed 70.7% o deithiau i orsafoedd a 68.5% o deithiau o orsafoedd gan ddefnyddio'r dull hwn.

- Roedd teithiau car yn gymharol gyffredin, gyda 18.8% o deithiau i'r orsaf reilffordd a 10.9% o'r teithiau o'r orsaf reilffordd mewn car.
- Gwnaed 4.8% o deithiau i orsaf reilffordd a 3.3% o deithiau o orsaf reilffordd ar fws.
- Yr un fath ag arosfannau bysiau, roedd mwyafrif helaeth o deithiau i ac o orsaf reilffordd yn llai na 5km o hyd. Roedd 48.2% o deithiau i'r orsaf reilffordd o dan 1km, gyda 40.3% arall rhwng 1km a 5km. Roedd 42.0% o deithiau o'r orsaf reilffordd i'r gyrchfan derfynol yn llai na 1km o hyd, ac roedd 48.4% rhwng 1km a 5km.

Pwrpasau teithio

Pwrpas y daith yw'r prif reswm pam roedd ymatebydd yn teithio. Yn aml, mae hyn yn seiliedig ar y gweithgaredd a gynhaliwyd ar darddiad neu gyrchfan y daith. Pan ddewisodd ymatebydd 'dychwelyd adref' o'i leoliad fel rheswm dros ei daith, rydym wedi defnyddio'r pwrpas yn ei leoliad blaenorol at ddiben y daith.

Mae teithiau ar gyfer hamdden yn unig, lle mae'r weithred o deithio yn weithgaredd hamdden (er enghraifft, rhedeg neu chwaraeon) wedi'u heithrio. Mae hyn yn cyd-fynd â diffiniad y Ddeddf Teithio Llesol o deithiau cyfleustodau.

Mae'r teithio i gyrchfan lle mae gweithgaredd hamdden yn cael ei gynnal (er enghraifft, campfa neu faes chwaraeon) wedi'i gynnwys. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ba deithiau sydd wedi'u cynnwys yn ein diffiniadau.

- Pwrpas fwyaf cyffredin taith oedd siopa, hyd yn oed os nad oedd bwriad i brynu unrhyw beth (23.1%). Dilynwyd hyn gan gymudo i'r gwaith neu oddi yno (19.3%) a chymdeithasu neu adloniant (17.7%).
- Gwyliau neu daith ddydd oedd y pwrpas gyda'r pellter cymedrig hiraf (69.9km). Roedd y teithiau hyn yn llai cyffredin, gan gyfrif am ddim ond 3.4% o'r holl deithiau.

Cyfran o deithiau yn ôl pwrpas

Ffigur 3: Cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl prif ddiben y daith, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar llorweddol sy'n dangos cyfran y teithiau fesul person y flwyddyn yn ôl pwrpas y daith. Roedd bron i 60% o deithiau at un o dri diben: siopa, cymudo gwaith, a chymdeithasu neu adloniant. Roedd dibenion eraill yn llai cyffredin.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, dibenion y daith